# Methodoleg, canlyniadau a dadansoddiadau’r arolwg o garcharorion

## CEF Y Parc

Ionawr 2025

# Cynnwys


Methodoleg yr arolwg o garcharorion .................................................................. 3

Ymatebion i'r arolwg ............................................................................................. 4

Canlyniadau a dadansoddiadau'r arolwg o garcharorion ..................................... 5

# Methodoleg yr arolwg o garcharorion

Cynhelir arolwg cynrychioliadol o'r carcharorion ar ddechrau pob arolygiad, ac mae'r canlyniadau'n cyfrannu at y sylfaen dystiolaeth ar gyfer yr arolygiad.

Datblygodd ymchwilwyr Arolygiaeth Carchardai EF holiadur hunan-lenwi ym mis Tachwedd 2023 i gefnogi *Disgwyliadau* Arolygiaeth Carchardai EF. Mae'r holiadur yn cynnwys cwestiynau wedi'u strwythuro sy'n ymdrin â 'thaith' y carcharor, o dderbyn i ryddhau, ynghyd â chwestiynau demograffig a chefndir sy'n ein galluogi i gymharu ymatebion o wahanol is-grwpiau o boblogaeth y carcharorion. Mae tri chwestiwn agored hefyd ar ddiwedd yr holiadur sy'n caniatáu i garcharorion fynegi yn eu geiriau eu hunain yr hyn sydd fwyaf cadarnhaol a negyddol am y carchar. Gwneir dadansoddiad ansoddol o'r sylwadau ysgrifenedig hyn gan ymchwilwyr Arolygiaeth Carchardai EF ac fe'i defnyddir gan arolygwyr.

## Samplu

Ar ddiwrnod yr arolwg, mae ymchwilwyr Arolygiaeth Carchardai EF yn creu sampl ar hap ar sail allbrint o boblogaeth carcharorion P-NOMIS, a drefnir yn ôl lleoliad y celloedd. Gan ddefnyddio cyfrifiad pŵer, mae ymchwilwyr Arolygiaeth Carchardai EF yn cyfrifo maint y sampl lleiaf sydd ei angen i sicrhau bod canfyddiadau'r arolwg yn gynrychioliadol o holl boblogaeth y sefydliad. Mae'r fformiwla a ddefnyddiwyd yn y cyfrifiad yn tybio y bydd cyfradd ymateb o 75% (65% mewn sefydliadau agored), a chyfwng hyder o 95% gyda lwfans gwallau o 7%.

## Dosbarthu a chasglu holiaduron

Roedd ymchwilwyr Arolygiaeth Carchardai EF wedi dosbarthu a chasglu'r holiaduron yn bersonol. Cafodd dalen flaen ei chynnwys gyda'r holiadur, a oedd yn esbonio pwrpas yr arolwg ac nad oedd rhaid i bobl gymryd rhan. Rhoddwyd sicrwydd ynghylch cyfrinachedd, anhysbysrwydd a storio a chadw data. Cafodd y carcharorion amlen a oedd yn gallu cael ei selio i gadw'r holiadur ar ôl iddyn nhw ei lenwi, a chawsant wybod pryd y byddai'r ymchwilwyr yn dychwelyd i'w gasglu. Pan nad oedd modd i'r ymchwilwyr gael cydsyniad ar lafar gan garcharorion, roedd llenwi a dychwelyd yr holiaduron yn cael ei ystyried yn gydsyniad. Roedd yr holiadur ar gael mewn 14 iaith.

## Ymatebion i'r arolwg

Adeg yr arolwg, ar 13 Ionawr 2024, poblogaeth y carcharorion yn CEF Y Parc oedd 1,761. Gan ddefnyddio'r dull samplu a ddisgrifiwyd uchod, dosbarthwyd holiaduron i 239 o garcharorion. Cafodd cyfanswm o 193 o holiaduron eu llenwi, sy'n gyfradd ymateb o 81%.

Mae adroddiad llawn yr arolygiad ar gael ar ein gwefan yn:
https://www.justiceinspectorates.gov.uk/hmiprisons/inspections/

# Canlyniadau a dadansoddiadau'r arolwg o garcharorion

Ar y tudalennau canlynol rydym yn cyflwyno holl ganlyniadau'r arolwg, a ddilynir gan nifer o ddadansoddiadau cymharol ar gyfer CEF Y Parc. Ar gyfer y dadansoddiadau cymharol, lle bo'n berthnasol, ail-luniwyd pob cwestiwn gan ddefnyddio'r prawf *Chi-square* (neu brawf union Fisher os oes llai na phum cyfrifiad disgwyliedig mewn cell) i fformat 'ie / na' deuaidd, a chymharwyd yr ymatebion cadarnhaol. Mae ymatebion coll wedi cael eu heithrio o'r holl ddadansoddiadau, ac mae ymatebion gan is-grŵp o'r sampl wedi cael eu cofnodi ar gyfer rhai cwestiynau (fel mae'r data'n dangos).

## Ymatebion CEF Y Parc 2025 o'u cymharu ag ymatebion arolygon eraill Arolygiaeth Carchardai EF

**Gwneir y dadansoddiadau hyn ar ddata cryno o holl gwestiynau'r arolwg. Gan ein bod wedi bod yn defnyddio fersiwn diwygiedig o'r holiadur ers mis Tachwedd 2023, nid oes gennym ddata cymaradwy llawn ar gyfer pob cwestiwn eto.**

- Ymatebion arolwg CEF Y Parc yn 2025 o'u cymharu ag ymatebion arolwg o garchardai hyfforddi categori C eraill a arolygwyd ers cyflwyno'r holiadur newydd ym mis Tachwedd 2023.
- Ymatebion arolwg CEF Y Parc yn 2025 o'u cymharu ag ymatebion arolwg CEF Y Parc yn 2022.

## Cymariaethau rhwng gwahanol leoliadau preswyl yn CEF Y Parc 2025

- Ymatebion carcharorion ar unedau nad ydynt yn arbenigol (unedau A a B) o'u cymharu ag ymatebion gweddill y sefydliad.
- Ymatebion gan unedau lle cedwir carcharorion sydd wedi eu dyfarnu'n euog o droseddau rhywiol (Unedau X a D) o'u cymharu ag ymatebion gweddill y sefydliad.

## Cymariaethau rhwng is-boblogaethau carcharorion a hunan-adroddwyd yn CEF Y Parc 2025

**Gwneir y dadansoddiadau hyn ar ddata cryno o gwestiynau dethol yr arolwg yn unig.**

- Ymatebion carcharorion dan 25 oed o'u cymharu ag ymatebion carcharorion 25 oed a hŷn.
- Ymatebion carcharorion 50 oed a hŷn o'u cymharu ag ymatebion carcharorion o dan 50 oed.
- Ymatebion carcharorion o bob grŵp ethnig arall o'u cymharu ag ymatebion carcharorion gwyn.
- Ymatebion carcharorion sy'n Fwslimiaid o'u cymharu ag ymatebion carcharorion nad ydynt yn Fwslimiaid.
- Ymatebion y carcharorion a ddywedodd fod ganddyn nhw anabledd o'u cymharu ag ymatebion y carcharorion na ddywedodd hynny.

- Ymatebion y carcharorion a ddywedodd fod ganddyn nhw broblemau iechyd meddwl o’u cymharu ag ymatebion y carcharorion na ddywedodd hynny.
- Ymatebion y carcharorion a ddywedodd eu bod wedi bod mewn gofal awdurdod lleol o’u cymharu ag ymatebion y carcharorion na ddywedodd hynny.

Sylwch mai dim ond os oes o leiaf 10 ymateb ym mhob grŵp cymharol y byddwn yn cynnal dadansoddiad cymharydd o fewn y carchar, ac mae’n rhaid i hynny hefyd gynrychioli o leiaf 10% o’r holl ymatebion.

Yn y dadansoddiadau cymharydd, dangosir gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol drwy ddefnyddio graddliwio. Mae’r trothwy tebygolrwydd (h.y. gwerth-p) wedi’i osod ar 0.01, sy’n golygu bod tebygolrwydd o 1% mai hap a damwain sy’n gyfrifol am y gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol rhwng y ddau grŵp. Defnyddir y lliw gwyrdd i ddangos canlyniadau sy’n llawer mwy cadarnhaol, a defnyddir y lliw glas i ddangos canlyniadau sy’n llawer mwy negyddol. Defnyddiwyd lliw oren i ddangos gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol o ran demograffeg neu fanylion cefndir eraill. Os nad oes unrhyw liw, nid yw’r gwahaniaeth rhwng y ddau ganlyniad yn arwyddocaol o safbwynt ystadegol, ac efallai ei fod wedi digwydd drwy hap a damwain. Mae’r lliw llwyd yn dangos nad oes data cymaradwy dilys ar gael ar gyfer y cwestiwn hwnnw.

Mae cwestiynau wedi’u hidlo yn cael eu mewnoli ac yn cael eu rhagflaenu gan esboniad mewn italig o sut mae’r hidlydd wedi cael ei ddefnyddio. Yn y dadansoddiadau cymharol, mae canrannau ar gyfer cwestiynau wedi’u hidlo yn cyfeirio at nifer yr ymatebwyr sydd wedi’u hidlo i’r cwestiwn hwnnw. Ar gyfer pob cwestiwn arall, mae canrannau’n cyfeirio at gyfanswm yr ymatebion dilys i’r cwestiwn.

## Gwybodaeth gefndir

**1.1 Ar ba adain neu floc tŷ rydych chi'n byw ar hyn o bryd?**

| | |
|---|---|
| Uned A | 43 (22%) |
| Uned B | 40 (21%) |
| Uned C | 8 (4%) |
| Uned D | 12 (6%) |
| Uned T | 47 (24%) |
| Uned X | 40 (21%) |
| Uned arwahanu | 3 (2%) |

**1.2 Faint yw eich oed?**

| | |
|---|---|
| Dan 21 oed | 11 (6%) |
| 21 - 24 | 13 (7%) |
| 25 - 29 | 34 (18%) |
| 30 - 39 | 72 (38%) |
| 40 - 49 | 31 (16%) |
| 50 - 59 | 16 (8%) |
| 60 - 69 | 10 (5%) |
| 70 neu hŷn | 4 (2%) |

**1.3 Beth yw eich grŵp ethnig?**

| | |
|---|---|
| Gwyn - Seisnig / Cymreig / Albanaidd / Gwyddelig (Gogledd) / Prydeinig | 150 (79%) |
| Gwyn - Gwyddelig | 4 (2%) |
| Gwyn - Sipsi neu Deithiwr Gwyddelig | 3 (2%) |
| Gwyn - Roma | 2 (1%) |
| Gwyn - unrhyw gefndir Gwyn arall | 1 (1%) |
| Cymysg - Gwyn a Du Caribïaidd | 6 (3%) |
| Cymysg - Gwyn a Du Affricanaidd | 1 (1%) |
| Cymysg - Gwyn ac Asiaidd | 0 (0%) |
| Cymysg - unrhyw gefndir ethnig Cymysg arall | 5 (3%) |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Indiaidd | 2 (1%) |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Pacistanaidd | 0 (0%) |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Bangladeshaidd | 1 (1%) |
| Asiaidd neu Asiaidd Prydeinig - Tsieineaidd | 0 (0%) |
| Asiaidd - unrhyw gefndir Asiaidd arall | 2 (1%) |
| Du neu Ddu Prydeinig - Caribïaidd | 2 (1%) |
| Du neu Ddu Prydeinig - Affricanaidd | 4 (2%) |
| Du – unrhyw gefndir Du / Affricanaidd / Caribïaidd arall | 1 (1%) |
| Arabaidd | 5 (3%) |
| Unrhyw grŵp ethnig arall | 1 (1%) |

**1.4 Ers faint ydych chi wedi bod yn y carchar hwn?**

| | |
|---|---|
| Llai na 6 mis | 81 (43%) |
| 6 mis neu fwy | 106 (57%) |

**1.5 Ydych chi'n bwrw dedfryd ar hyn o bryd?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 141 (74%) |
| Ydw – ar adalw | 36 (19%) |
| Nac ydw - ar remand neu'n aros am ddedfryd | 10 (5%) |
| Nac ydw - mewnfudwr a gedwir | 3 (2%) |

**1.6 Pa mor hir yw eich dedfryd (heb gynnwys rhyddhau cynnar)?**

| | |
|---|---|
| Llai na 6 mis | 14 (7%) |
| 6 mis i lai na blwyddyn | 19 (10%) |
| 1 flwyddyn i lai na 4 blynedd | 51 (27%) |
| 4 blynedd i lai na 10 mlynedd | 56 (30%) |
| 10 blynedd neu fwy | 24 (13%) |
| IPP (dedfryd amhenodol er mwyn gwarchod y cyhoedd) | 6 (3%) |
| Dedfryd oes | 5 (3%) |
| Ddim yn bwrw dedfryd ar hyn o bryd | 13 (7%) |

## Diwrnod cyntaf yn y carchar hwn

**2.1 Pan wnaethoch chi gyrraedd y carchar hwn, faint o amser wnaethoch chi ei dreulio yn y dderbynfa?**

| | |
|---|---|
| Llai na 2 awr | 40 (21%) |
| 2 awr neu fwy | 133 (71%) |
| Ddim yn cofio | 14 (7%) |

**2.2 Pan roeddech chi'n cael eich chwilio yn y dderbynfa, a gafodd hyn ei wneud mewn ffordd barchus?**

| | |
|---|---|
| Do | 117 (63%) |
| Naddo | 24 (13%) |
| Ddim yn cofio | 16 (9%) |
| Ni chefais fy chwilio yn y dderbynfa | 30 (16%) |

**2.3 Yn gyffredinol, sut cawsoch chi eich trin yn y dderbynfa?**

| | |
|---|---|
| Da iawn | 35 (18%) |
| Eithaf da | 109 (56%) |
| Eithaf gwael | 31 (16%) |
| Yn wael iawn | 11 (6%) |
| Ddim yn cofio | 7 (4%) |

**2.4 Pan gyrhaeddoch chi yma am y tro cyntaf, a oedd gennych un o'r problemau canlynol?**

| | Oedd, ac fe wnaeth y staff helpu | Oedd, ond wnaeth y staff ddim helpu | Nid oedd gennyf y broblem hon |
|---|---|---|---|
| Teimlo'n isel | 25 (14%) | 72 (40%) | 81 (46%) |
| Teimlo fel lladd eich hun | 9 (6%) | 27 (18%) | 110 (75%) |
| Angen eich amddiffyn rhag carcharorion eraill | 4 (3%) | 15 (10%) | 129 (87%) |

**2.5 Pan gyrhaeddoch chi yma am y tro cyntaf, oeddech chi'n gallu siarad ag aelod o staff yn breifat am unrhyw broblemau oedd gennych chi?**

| | |
|---|---|
| Oeddwn | 54 (32%) |
| Nac oeddwn | 70 (41%) |
| Doedd gen i ddim problemau pan wnes i gyrraedd am y tro cyntaf | 45 (27%) |

**2.6 Wnaethoch chi weld rhywun o'r adran gofal iechyd yn y dderbynfa?**

| | |
|---|---|
| Do | 169 (91%) |
| Naddo | 9 (5%) |
| Ddim yn cofio | 8 (4%) |

## Noson gyntaf ac ymsefydlu

**3.1 Cyn i chi gael eich rhoi o dan glo ar eich noson gyntaf yma, a gawsoch chi gynnig unrhyw un o'r pethau canlynol?**

| | Do | Naddo | Ddim yn cofio |
|---|---|---|---|
| Amnewidyn nicotin (gan gynnwys fêps) | 144 (82%) | 24 (14%) | 8 (5%) |
| Pethau ymolchi | 142 (79%) | 33 (18%) | 4 (2%) |
| Cawod | 56 (32%) | 116 (66%) | 3 (2%) |
| Galwad ffôn am ddim | 103 (58%) | 71 (40%) | 5 (3%) |
| Rhywbeth i'w fwyta | 141 (79%) | 34 (19%) | 3 (2%) |
| Cyfle i siarad â Gwrandäwr neu'r Samariaid | 48 (27%) | 107 (60%) | 22 (12%) |
| Cefnogaeth gan garcharor arall (e.e. Rhywun o'r tu mewn neu gynrychiolydd carcharorion)? | 64 (36%) | 93 (53%) | 19 (11%) |

**3.2 Ar eich noson gyntaf yn y carchar hwn, pa mor lân neu fudr oedd eich cell?**

Yn lân iawn ........ 19 (10%)
Eithaf glân ........ 64 (34%)
Eithaf budr ........ 47 (25%)
Yn fudr iawn ........ 52 (28%)
Ddim yn cofio ........ 5 (3%)

**3.3 Oeddech chi'n teimlo'n ddiogel ar eich noson gyntaf yma?**

Oeddwn ........ 134 (72%)
Nac oeddwn ........ 44 (24%)
Ddim yn cofio ........ 8 (4%)

**3.4 A roddwyd rhifau ar eich ffôn PIN o fewn 24 awr?**

Do ........ 63 (34%)
Naddo ........ 109 (58%)
Ddim yn cofio ........ 15 (8%)

**3.5 Yn ystod eich diwrnodau cyntaf yma, gawsoch chi'r pethau hyn?**

| | Do | Naddo | Ddim yn cofio |
|---|---|---|---|
| Eitemau o siop / ffreutur y carchar | 130 (70%) | 53 (29%) | 2 (1%) |
| Mynediad at ddillad glân a oedd yn eich ffitio chi | 102 (57%) | 72 (40%) | 4 (2%) |
| Credyd ffôn PIN | 117 (65%) | 56 (31%) | 7 (4%) |
| Eich eiddo personol | 104 (58%) | 69 (39%) | 5 (3%) |

**3.6 A oedd eich sesiwn ymsefydlu yn cynnwys popeth yr oedd angen i chi ei wybod am y carchar hwn?**

Oedd ........ 75 (41%)
Nac oedd ........ 92 (50%)
Heb gael sesiwn ymsefydlu ........ 17 (9%)

## Ar yr adain

**4.1 Ydych chi mewn cell ar eich pen eich hun?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 73 (38%) |
| Nac ydw, rydw i mewn cell neu ystafell aml-wely sy'n cael ei rhannu | 118 (62%) |

**4.2 Ydy cloch galw eich cell yn cael ei hateb o fewn 5 munud fel arfer?**

| | |
|---|---|
| Ydy | 51 (28%) |
| Nac ydy | 113 (61%) |
| Ddim yn gwybod | 17 (9%) |
| Nid oes gen i gloch galw yn y gell | 3 (2%) |

**4.3 Atebwch y cwestiynau hyn am yr adain neu'r bloc tŷ yr ydych yn byw ynddo ar hyn o bryd:**

| | Oes / Gallaf | Nac oes / Na allaf | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Fel arfer, oes gennych chi ddigon o ddillad glân sydd yn eich ffitio? | 125 (67%) | 57 (31%) | 4 (2%) |
| Allwch chi gael cawod bob dydd os ydych chi eisiau un? | 179 (94%) | 9 (5%) | 2 (1%) |
| Allwch chi gael dillad gwely glân bob wythnos os ydych chi eisiau hynny? | 109 (58%) | 66 (35%) | 14 (7%) |
| Allwch chi gael deunyddiau glanhau cell bob wythnos os ydych chi eisiau hynny? | 110 (59%) | 67 (36%) | 8 (4%) |
| Allwch chi gael eich eiddo sydd wedi'i storio yn brydlon, os oes ei angen arnoch? | 24 (13%) | 125 (68%) | 36 (19%) |

**4.4 A yw fel arfer yn ddigon tawel ar yr adain neu'r bloc tŷ i chi ymlacio:**

| | Ydy | Nac ydy |
|---|---|---|
| Yn ystod y dydd? | 76 (40%) | 112 (60%) |
| Gyda'r nos? | 102 (56%) | 81 (44%) |

**4.5 Fel arfer, pa mor lân neu fudr yw'r ardaloedd cymunol yn eich adain neu floc tŷ?**

| | Yn lân iawn | Eithaf glân | Eithaf budr | Yn fudr iawn |
|---|---|---|---|---|
| Landin a grisiau | 41 (22%) | 95 (51%) | 40 (22%) | 10 (5%) |
| Ardaloedd cymdeithasu | 37 (20%) | 100 (55%) | 36 (20%) | 8 (4%) |
| Ystafell arlwyo | 54 (30%) | 94 (52%) | 21 (12%) | 12 (7%) |
| Cawodydd | 60 (33%) | 55 (31%) | 33 (18%) | 32 (18%) |
| Iard ymarfer corff | 32 (18%) | 66 (36%) | 38 (21%) | 46 (25%) |

**4.6 Os ydych chi wedi bod yn destun ACCT (Asesu, Gofal yn y Ddalfa a Gwaith Tîm) yn y carchar hwn, oeddech chi'n teimlo bod y staff yn gofalu amdanoch chi?**

| | |
|---|---|
| Oeddwn | 24 (13%) |
| Nac oeddwn | 44 (24%) |
| Heb fod yn destun ACCT yn y carchar hwn | 115 (63%) |

**4.7 Pa mor hawdd neu anodd yw hi i chi siarad â Gwrandäwr, os oes angen i chi wneud hynny?**

| | |
|---|---|
| Hawdd iawn | 36 (19%) |
| Eithaf hawdd | 37 (20%) |
| Eithaf anodd | 15 (8%) |
| Anodd iawn | 13 (7%) |

Ddim yn gwybod ........................................................................ 80 (43%)
Does dim Gwrandawyr yn y carchar hwn .................................. 4 (2%)

## Bwyd a ffreutur

**5.1 Beth yw ansawdd y bwyd yn y carchar hwn?**

Da iawn .................................................................................... 8 (4%)
Eithaf da .................................................................................. 38 (20%)
Eithaf gwael.............................................................................. 60 (32%)
Gwael iawn............................................................................... 80 (43%)

**5.2 Ydych chi'n cael digon i'w fwyta amser bwyd?**

Bob amser ................................................................................. 14 (7%)
Y rhan fwyaf o'r amser................................................................ 29 (15%)
Weithiau ................................................................................... 61 (32%)
Byth ......................................................................................... 87 (46%)

**5.3 Ydy'r siop / ffreutur yn gwerthu'r pethau sydd eu hangen arnoch?**

Ydy ........................................................................................ 58 (31%)
Nac ydy ................................................................................... 118 (63%)
Ddim yn gwybod ........................................................................ 10 (5%)

**5.4 Allwch chi ddefnyddio catalogau / darparwyr eraill i brynu'r pethau sydd eu hangen arnoch?**

Gallaf....................................................................................... 101 (54%)
Na allaf .................................................................................... 41 (22%)
Ddim yn gwybod ........................................................................ 45 (24%)

## Perthynas gyda staff

**6.1 Ydy'r rhan fwyaf o'r staff yma yn eich trin chi â pharch?**

Ydyn ........................................................................................ 126 (69%)
Nac ydyn .................................................................................. 57 (31%)

**6.2 Petai gennych chi broblem, fyddech chi'n gallu dweud wrth unrhyw staff yma?**

Gallem...................................................................................... 120 (67%)
Na allem ................................................................................... 60 (33%)

**6.3 Yn ystod yr wythnos ddiwethaf, a oes unrhyw aelod o'r staff wedi gofyn i chi sut ydych chi?**

Oes.......................................................................................... 69 (37%)
Nac oes .................................................................................... 119 (63%)

**6.4 Pa mor ddefnyddiol yw eich swyddog dynodedig (gweithiwr allweddol)?**

Defnyddiol iawn ......................................................................... 26 (14%)
Eithaf defnyddiol........................................................................ 27 (15%)
Ddim yn ddefnyddiol iawn............................................................ 27 (15%)
Ddim yn ddefnyddiol o gwbl......................................................... 27 (15%)
Nid oes gennyf swyddog dynodedig (gweithiwr allweddol)......... 78 (42%)

**6.5 A ymgynghorir â charcharorion yma am bethau fel bwyd, ffreutur neu faterion yn ymwneud a'r adain?**

Gwneir, ac weithiau mae pethau'n newid .................................. 18 (10%)
Gwneir, ond dydy pethau ddim yn newid.................................... 51 (28%)
Na............................................................................................ 81 (44%)

| | |
|---|---|
| Ddim yn gwybod | 33 (18%) |

**6.6 Petai chi eisiau gwneud hynny, allwch chi siarad â rheolwyr, llywodraethwyr neu gyfarwyddwyr yn y carchar hwn?**

| | |
|---|---|
| Gallaf | 56 (30%) |
| Na allaf | 76 (41%) |
| Ddim yn gwybod | 53 (29%) |

**6.7 Os ydych chi wedi rhannu problem â rheolwr, llywodraethwr neu gyfarwyddwr, a wnaethon nhw geisio eich helpu chi?**

| | |
|---|---|
| Do | 48 (26%) |
| Naddo | 65 (36%) |
| Ddim wedi rhannu problem | 69 (38%) |

## Ffydd

**7.1 Ydych chi wedi siarad â thîm y Gaplaniaeth yn y carchar hwn?**

| | |
|---|---|
| Do | 106 (56%) |
| Naddo | 82 (44%) |

**7.2 Ydych chi'n gallu siarad â thîm y Gaplaniaeth yn breifat, os ydych chi eisiau gwneud hynny?**

| | |
|---|---|
| Gallaf | 102 (54%) |
| Na allaf | 13 (7%) |
| Ddim yn gwybod | 73 (39%) |

**7.3 Beth yw eich crefydd?**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Dim crefydd | 77 (41%) | Islam | 20 (11%) |
| Cristnogaeth | 71 (38%) | Sikhiaeth | 1 (1%) |
| Bwdhaeth | 4 (2%) | Paganiaeth | 1 (1%) |
| Hindŵaeth | 0 (0%) | Rastaffariaeth | 3 (2%) |
| Iddewiaeth | 0 (0%) | Arall | 12 (6%) |

**7.4 Ydych chi'n gallu mynychu gwasanaethau crefyddol, os ydych chi'n dymuno gwneud hynny?**

| | |
|---|---|
| Gallaf | 90 (49%) |
| Na allaf | 9 (5%) |
| Ddim yn gwybod | 9 (5%) |
| Amherthnasol (dim crefydd) | 77 (42%) |

**7.5 A yw eich credoau crefyddol yn cael eu parchu yma?**

| | |
|---|---|
| Ydyn | 61 (34%) |
| Nac ydyn | 22 (12%) |
| Ddim yn gwybod | 22 (12%) |
| Amherthnasol (dim crefydd) | 77 (42%) |

## Cyswllt â theulu a ffrindiau

**8.1 Pa mor aml ydych chi wedi gallu gweld eich teulu a'ch ffrindiau yn ystod y mis diwethaf:**

| | Bob wythnos | Dwy neu dair gwaith | Unwaith | Ddim o gwbl | Ddim yn berthnasol i mi |
|---|---|---|---|---|---|
| Wyneb yn wyneb (ymweliad â'r carchar)? | 28 (16%) | 28 (16%) | 31 (17%) | 52 (29%) | 39 (22%) |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Drwy alwad fideo? | 3 (2%) | 19 (14%) | 14 (10%) | 53 (38%) | 51 (36%) |

**8.2 A yw ymweliadau fel arfer yn dechrau ac yn gorffen ar amser?**

Ydyn .................................................................................... 67 (36%)
Nac ydyn ............................................................................... 46 (25%)
Ddim yn gwybod..................................................................... 38 (20%)
Ddim yn berthnasol i mi.......................................................... 35 (19%)

**8.3 A yw eich ymwelwyr yn cael eu trin yn barchus gan staff fel arfer?**

Bob amser .............................................................................. 26 (14%)
Y rhan fwyaf o'r amser............................................................ 56 (31%)
Weithiau ................................................................................ 30 (16%)
Byth ...................................................................................... 9 (5%)
Ddim yn berthnasol i mi.......................................................... 62 (34%)

**8.4 Pa mor hawdd neu anodd yw hi i'ch teulu a'ch ffrindiau gyrraedd yma?**

Hawdd iawn............................................................................ 16 (9%)
Eithaf hawdd.......................................................................... 38 (21%)
Eithaf anodd .......................................................................... 40 (22%)
Anodd iawn............................................................................ 49 (27%)
Ddim yn gwybod..................................................................... 5 (3%)
Ddim yn berthnasol i mi.......................................................... 34 (19%)

**8.5 Ydy'r staff yma wedi eich annog chi i gadw mewn cysylltiad â'ch teulu a'ch ffrindiau?**

Ydyn .................................................................................... 55 (31%)
Nac ydyn ............................................................................... 122 (69%)

**8.6 Ydych chi wedi cael unrhyw broblemau wrth anfon neu dderbyn y pethau hyn?**

| | Do | Naddo |
|---|---|---|
| E-byst | 66 (41%) | 96 (59%) |
| Llythyrau | 87 (51%) | 82 (49%) |
| Parseli | 86 (55%) | 71 (45%) |

**8.7 Ydych chi'n gallu defnyddio'r ffôn bob dydd (os oes gennych chi gredyd)?**

Ydw ...................................................................................... 175 (96%)
Nac ydw.................................................................................. 8 (4%)

## Amser allan o'r gell

**9.1 Ydych chi'n gwybod beth yw'r amseroedd datgloi a chloi yma (neu amseroedd gwirio'r gofrestr os ydych chi mewn carchar agored)?**

Ydw, a chedwir at yr amseroedd hyn fel arfer............................ 59 (33%)
Ydw, ond ni chedwir at yr amseroedd hyn fel arfer..................... 85 (47%)
Nac ydw.................................................................................. 35 (20%)

**9.2 Faint o amser fyddwch chi'n ei dreulio allan o'ch cell bob dydd?**

| | Llai na 2 awr | 2-6 awr | 6-10 awr | 10 awr neu fwy | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Dydd Llun i ddydd Gwener | 57 (31%) | 55 (30%) | 47 (26%) | 10 (5%) | 15 (8%) |
| Dydd Sadwrn a dydd Sul | 77 (45%) | 62 (36%) | 19 (11%) | 3 (2%) | 11 (6%) |

**9.3 Sawl gwaith mewn wythnos arferol ydych chi'n gallu gwneud y pethau hyn?**

| | Dim | 1 neu 2 | 3-5 | Mwy na 5 | Ddim ar gael yma |
|---|---|---|---|---|---|
| Cwblhau tasgau domestig | 26 (15%) | 50 (29%) | 27 (15%) | 66 (38%) | 6 (3%) |
| Cymdeithasu | 7 (4%) | 21 (12%) | 36 (20%) | 113 (64%) | 0 (0%) |
| Ymarfer y tu allan | 7 (4%) | 31 (18%) | 32 (18%) | 105 (60%) | 0 (0%) |
| Mynd i'r gampfa neu gymryd rhan mewn chwaraeon | 19 (11%) | 57 (33%) | 66 (38%) | 28 (16%) | 4 (2%) |

**9.4 Ar y penwythnos, ydych chi'n gallu gwneud y pethau hyn?**

| | Ydw | Nac ydw |
|---|---|---|
| Cwblhau tasgau domestig | 123 (75%) | 42 (25%) |
| Cymdeithasu | 165 (94%) | 11 (6%) |
| Ymarfer y tu allan | 158 (91%) | 15 (9%) |
| Mynd i'r gampfa neu gymryd rhan mewn chwaraeon | 109 (66%) | 56 (34%) |

**9.5 Sawl gwaith mewn wythnos arferol ydych chi'n gallu gwneud y pethau hyn?**

| | Byth | Llai nag unwaith yr wythnos | Tua unwaith yr wythnos | Dwywaith yr wythnos neu fwy |
|---|---|---|---|---|
| Ymweld â'r llyfrgell | 61 (35%) | 46 (26%) | 68 (39%) | 1 (1%) |
| Benthyg eitemau llyfrgell a gedwir ar yr adain | 88 (54%) | 23 (14%) | 46 (28%) | 7 (4%) |
| Derbyn pethau o'r llyfrgell sy'n cael eu danfon i'r adain | 79 (48%) | 22 (13%) | 58 (35%) | 6 (4%) |

**9.6 A oes gan y llyfrgell ystod ddigon eang o ddeunyddiau i ddiwallu eich anghenion?**

Oes........................................................................................ 70 (38%)
Nac oes .................................................................................. 50 (27%)
Nid wyf yn defnyddio'r llyfrgell ................................................... 63 (34%)

## Ceisiadau, cwynion a hawliau cyfreithiol

**10.1 Ydy hi'n hawdd i chi wneud cais?**

Ydy ........................................................................................ 105 (58%)
Nac ydy .................................................................................. 64 (35%)
Ddim yn gwybod........................................................................ 13 (7%)

**10.2 Os ydych chi wedi gwneud unrhyw geisiadau yma, ydyn nhw'n cael eu trin:**

| | Ydyn | Nac ydyn | Heb wneud unrhyw geisiadau |
|---|---|---|---|
| Yn deg? | 61 (35%) | 84 (48%) | 31 (18%) |
| Cyn pen 7 diwrnod? | 42 (25%) | 98 (57%) | 31 (18%) |

**10.3 Ydy hi'n hawdd i chi wneud cwyn?**

Ydy ........................................................................................ 106 (57%)
Nac ydy .................................................................................. 51 (28%)
Ddim yn gwybod........................................................................ 28 (15%)

**10.4 Os ydych chi wedi gwneud unrhyw gwynion yma, ydyn nhw'n cael eu trin:**

| | Ydyn | Nac ydyn | Heb wneud unrhyw gwynion |
|---|---|---|---|
| Yn deg? | 31 (17%) | 82 (46%) | 65 (37%) |
| Cyn pen 7 diwrnod? | 17 (10%) | 93 (53%) | 65 (37%) |

**10.5 Ydych chi erioed wedi cael eich atal rhag cwyno yma pan oeddech chi eisiau gwneud hynny?**

Do........................................................................................ 47 (26%)
Naddo.................................................................................... 84 (47%)
Nid wyf wedi bod eisiau nac angen gwneud cwyn...................... 48 (27%)

**10.6 Ydych chi'n gwybod sut i gysylltu â'r sefydliadau hyn?**

| | Ydw | Nac ydw | Ddim yn gwybod pwy ydyn nhw |
|---|---|---|---|
| Ymchwiliadau Annibynnol i Gwynion Carcharorion | 68 (38%) | 78 (43%) | 35 (19%) |
| Bwrdd Monitro Annibynnol (IMB) | 93 (53%) | 57 (32%) | 27 (15%) |

**10.7 Yn y carchar hwn, ydy hi'n hawdd neu'n anodd i chi wneud y pethau hyn:**

| | Hawdd | Anodd | Ddim yn gwybod | Nid wyf angen hyn |
|---|---|---|---|---|
| Cyfathrebu gyda'ch cyfreithiwr neu gynrychiolydd cyfreithiol | 54 (30%) | 68 (37%) | 36 (20%) | 25 (14%) |
| Mynychu ymweliadau cyfreithiol | 70 (39%) | 43 (24%) | 40 (22%) | 26 (15%) |

**10.8 Os yw'r staff yma erioed wedi agor llythyrau gan eich twrnai neu eich cynrychiolydd cyfreithiol pan nad oeddech chi'n bresennol, a eglurwyd i chi pam?**

Do........................................................................................ 30 (17%)
Naddo.................................................................................... 82 (46%)
Ni agorwyd unrhyw lythyrau cyfreithiol ....................................... 68 (38%)

## Gofal iechyd

**11.1 Ers cyrraedd y carchar hwn, ydych chi wedi profi unrhyw oedi wrth gael y pethau hyn?**

| | Do | Naddo | Ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|
| Eich meddyginiaeth | 113 (61%) | 42 (23%) | 31 (17%) |
| Mynychu apwyntiadau meddygol allanol | 70 (40%) | 45 (25%) | 62 (35%) |
| Eich pecyn gofal cymdeithasol y cytunwyd arno | 55 (31%) | 37 (21%) | 83 (47%) |

**11.2 Pa mor hawdd neu anodd yw gweld y bobl hyn?**

| | Hawdd iawn | Eithaf hawdd | Eithaf anodd | Anodd iawn | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Meddyg | 8 (4%) | 45 (24%) | 57 (30%) | 68 (36%) | 10 (5%) |
| Nyrs | 18 (10%) | 62 (33%) | 47 (25%) | 46 (25%) | 13 (7%) |
| Deintydd | 6 (3%) | 12 (6%) | 34 (18%) | 108 (58%) | 26 (14%) |
| Fferyllydd | 16 (9%) | 44 (24%) | 48 (27%) | 47 (26%) | 25 (14%) |
| Gweithiwr iechyd meddwl | 7 (4%) | 23 (13%) | 34 (19%) | 72 (39%) | 47 (26%) |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithwyr camddefnyddio sylweddau | 19 (10%) | 39 (21%) | 23 (13%) | 32 (17%) | 71 (39%) |

**11.3 Beth yw eich barn chi am ansawdd cyffredinol y gwasanaethau iechyd a geir gan y bobl hyn?**

| | Da iawn | Eithaf da | Eithaf gwael | Gwael iawn | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Meddyg | 18 (10%) | 47 (25%) | 40 (21%) | 46 (25%) | 36 (19%) |
| Nyrs | 23 (13%) | 58 (32%) | 36 (20%) | 41 (22%) | 26 (14%) |
| Deintydd | 10 (6%) | 17 (9%) | 39 (22%) | 48 (27%) | 67 (37%) |
| Fferyllydd | 20 (11%) | 40 (22%) | 33 (18%) | 39 (21%) | 50 (27%) |
| Gweithiwr iechyd meddwl | 11 (6%) | 24 (13%) | 28 (16%) | 46 (26%) | 70 (39%) |
| Gweithwyr camddefnyddio sylweddau | 19 (11%) | 28 (16%) | 20 (11%) | 27 (15%) | 86 (48%) |

**11.4 Beth yw eich barn chi am ansawdd cyffredinol y gwasanaethau iechyd sydd ar gael yma?**

| | |
|---|---|
| Da iawn | 9 (5%) |
| Eithaf da | 40 (22%) |
| Eithaf gwael | 60 (33%) |
| Gwael iawn | 59 (32%) |
| Ddim yn gwybod | 14 (8%) |

**11.5 Os ydych chi i fod i gael eich rhyddhau yn y mis nesaf, ydych chi'n hyderus bod cynlluniau digonol i barhau â'ch gofal iechyd?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 7 (4%) |
| Nac ydw | 10 (6%) |
| Ddim yn gwybod | 15 (8%) |
| Ni fyddaf yn cael fy rhyddhau yn y mis nesaf/dim anghenion gofal iechyd | 145 (82%) |

**11.6 Ydych chi'n gallu byw bywyd iach yma (mewn perthynas â'ch anghenion corfforol, meddyliol a dietegol, a'ch lles emosiynol a chymdeithasol)?**

| | |
|---|---|
| Bob amser | 19 (10%) |
| Y rhan fwyaf o'r amser | 37 (20%) |
| Weithiau | 72 (39%) |
| Byth | 57 (31%) |

## Anghenion cymorth eraill

**12.1 Ydych chi'n ystyried bod gennych chi anabledd (anghenion corfforol, meddyliol neu ddysgu tymor hir sy'n effeithio ar eich bywyd bob dydd)?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 94 (51%) |
| Nac ydw | 91 (49%) |

**12.2 Os oes gennych chi anabledd, ydych chi'n cael y gefnogaeth sydd ei hangen arnoch yn y carchar hwn?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 25 (14%) |
| Nac ydw | 62 (35%) |

Dim anabledd .................................................................... 91 (51%)

**12.3 Oes gennych chi unrhyw broblemau iechyd meddwl?**

Oes.................................................................................... 123 (66%)
Nac oes ............................................................................. 62 (34%)

**12.4 Ydych chi wedi cael help gyda'ch problemau iechyd meddwl yn y carchar hwn?**

Ydw .................................................................................. 27 (15%)
Nac ydw............................................................................. 94 (51%)
Does gen i ddim problem iechyd meddwl.................................. 62 (34%)

**12.5 A yw eich iechyd meddwl wedi gwella neu wedi gwaethygu ers cyrraedd y carchar hwn?**

Gwella ............................................................................ 16 (9%)
Gwaethygu ....................................................................... 111 (61%)
Dim gwahaniaeth.............................................................. 55 (30%)

## Alcohol a chyffuriau

**13.1 A oes gennych broblem cyffuriau neu alcohol?**

Oes................................................................................. 53 (28%)
Nac oes ........................................................................... 133 (72%)

**13.2 Os ydych chi wedi dweud wrth staff am eich problem gyffuriau neu alcohol, ydych chi wedi cael help i'w rheoli?**

Do.................................................................................... 26 (14%)
Naddo.............................................................................. 21 (11%)
Heb ddweud wrth staff....................................................... 6 (3%)
Nid oes gen i broblem cyffuriau neu alcohol............................ 133 (72%)

**13.3 Os ydych chi wedi datblygu problem cyffuriau neu alcohol yn y carchar hwn (gan gynnwys meddyginiaeth nad yw wedi'i rhagnodi i chi), ydych chi wedi cael help i'w rheoli?**

Do.................................................................................... 17 (9%)
Naddo.............................................................................. 21 (11%)
Heb ddatblygu problem gyffuriau neu alcohol yn y carchar hwn .......................................................................................... 148 (80%)

**13.4 Os ydych chi i fod i gael eich rhyddhau yn ystod y mis nesaf, ydych chi'n gwybod â phwy i gysylltu i gael cymorth gyda'ch problem gyffuriau neu alcohol pan fyddwch chi'n gadael y carchar hwn?**

Ydw ................................................................................ 10 (5%)
Nac ydw........................................................................... 8 (4%)
Nid oes gen i broblem cyffuriau neu alcohol............................ 133 (73%)
Ni fyddaf yn cael fy rhyddhau yn ystod y mis nesaf.................. 32 (17%)

**13.5 Yn y carchar hwn, ydy hi'n hawdd neu'n anodd cael y pethau hyn?**

| | Hawdd iawn | Eithaf hawdd | Eithaf anodd | Anodd iawn | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyffuriau anghyfreithlon | 83 (46%) | 21 (12%) | 4 (2%) | 11 (6%) | 62 (34%) |
| Alcohol | 36 (20%) | 36 (20%) | 17 (10%) | 15 (9%) | 72 (41%) |
| Meddyginiaeth heb ei rhagnodi i chi | 68 (38%) | 27 (15%) | 6 (3%) | 14 (8%) | 65 (36%) |

## Diogelwch

**14.1 Ydych chi erioed wedi teimlo'n anniogel yma?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 102 (54%) |
| Nac ydw | 87 (46%) |

**14.2 Ydych chi'n teimlo'n anniogel ar hyn o bryd?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 46 (24%) |
| Nac ydw | 142 (76%) |

**14.3 Fyddech chi'n ei riportio pe baech chi'n cael eich bwlio / erlid yn y carchar hwn gan:**

| | Byddwn | Na fyddwn | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Carcharorion eraill? | 53 (29%) | 99 (55%) | 29 (16%) |
| Staff? | 63 (36%) | 83 (47%) | 31 (18%) |

**14.4 Ydych chi wedi cael eich bwlio / erlid yn y carchar hwn gan:**

| | Ydw | Nac ydw |
|---|---|---|
| Carcharorion eraill? | 75 (41%) | 108 (59%) |
| Staff? | 79 (44%) | 99 (56%) |

**14.5 Os ydych chi, pa rai o'r mathau hyn o fwlio / erledigaeth gan garcharorion eraill neu staff a brofwyd gennych?**

| | Gan garcharorion | Gan staff |
|---|---|---|
| Cam-drin geiriol | 42 (23%) | 56 (31%) |
| Bygythiadau neu frawychu | 38 (21%) | 49 (28%) |
| Ymosodiad corfforol | 23 (13%) | 14 (8%) |
| Ymosodiad rhywiol | 11 (6%) | 6 (3%) |
| Lladrad yn y ffreutur neu eiddo | 49 (27%) | 22 (12%) |
| Bwlio / erledigaeth arall | 29 (16%) | 48 (27%) |

## Rheoli ymddygiad

**15.1 Ydy'r carchar hwn yn:**

| | Ydy | Nac ydy | Ddim yn gwybod |
|---|---|---|---|
| Gwobrwyo ymddygiad da yn deg? | 19 (10%) | 132 (72%) | 32 (17%) |
| Delio ag ymddygiad gwael yn deg? | 23 (13%) | 113 (64%) | 40 (23%) |

**15.2 A oes cyfleoedd a gwobrau i gymell pobl yn y carchar hwn?**

| | |
|---|---|
| Oes | 26 (14%) |
| Nac oes | 112 (61%) |
| Ddim yn gwybod | 46 (25%) |

**15.3 Ydy'r cyfleoedd a'r gwobrau hyn yn eich cymell i ymddwyn yn dda?**

| | |
|---|---|
| Ydyn | 18 (26%) |
| Nac ydyn | 5 (7%) |
| Ddim yn gwybod pa gyfleoedd a gwobrau sydd ar gael | 46 (67%) |

**15.4 Ydych chi'n meddwl bod y diwylliant yn y carchar hwn yn annog carcharorion i ymddwyn yn dda?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 16 (9%) |
| Nac ydw | 121 (65%) |
| Ddim yn gwybod | 49 (26%) |

**15.5 Os ydych chi wedi cael eich ffrwyno yn gorfforol gan staff yn y carchar hwn yn ystod y 6 mis diwethaf, a ddaeth unrhyw un i siarad â chi am y peth wedyn?**

| | |
|---|---|
| Do | 12 (7%) |
| Naddo | 36 (20%) |
| Ddim yn cofio | 7 (4%) |
| Heb gael fy ffrwyno yn gorfforol yma yn y 6 mis diwethaf | 127 (70%) |

**15.6 Os ydych chi wedi treulio un noson neu fwy yn yr uned arwahanu yn y carchar hwn yn y 6 mis diwethaf:**

| | Oeddwn | Nac oeddwn | Heb fod yn yr uned arwahanu |
|---|---|---|---|
| Oeddech chi'n cael eich trin yn dda gan staff yr uned arwahanu? | 18 (10%) | 17 (10%) | 137 (80%) |
| Oeddech chi'n gallu cael cawod bob dydd? | 22 (13%) | 9 (5%) | 137 (82%) |
| Oeddech chi'n gallu mynd allan i wneud ymarfer corff bob dydd? | 20 (12%) | 13 (8%) | 137 (81%) |
| Oeddech chi'n gallu defnyddio'r ffôn bob dydd (os oedd gennych chi gredyd)? | 22 (13%) | 9 (5%) | 137 (82%) |

## Addysg, sgiliau a gwaith

**16.1 Ydych chi wedi cael cymorth gydag anghenion darllen yn y carchar hwn (gallai hyn gynnwys staff addysg neu staff yr adain, cymorth gan gymheiriaid neu unrhyw un arall)?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 43 (23%) |
| Nac ydw | 44 (24%) |
| Ddim angen cefnogaeth gydag anghenion darllen | 96 (52%) |

**16.2 Oes gennych chi unrhyw anawsterau dysgu (dyslecsia neu unrhyw gyflyrau eraill sy'n effeithio ar eich dysgu)?**

| | |
|---|---|
| Oes | 61 (33%) |
| Nac oes | 125 (67%) |

**16.3 Ydych chi wedi cael cymorth a chefnogaeth gan staff addysg ar gyfer eich anawsterau dysgu?**

| | |
|---|---|
| Ydw | 21 (11%) |
| Nac ydw | 39 (21%) |
| Dim anawsterau dysgu | 125 (68%) |

**16.4 Os ydych chi wedi gwneud unrhyw un o'r gweithgareddau hyn yn y carchar hwn, ydych chi'n meddwl y byddan nhw'n eich helpu chi ar ôl cael eich rhyddhau?**

| | Ydw, byddant yn helpu | Nac ydw, ni fyddant yn helpu | Heb wneud hyn |
|---|---|---|---|
| Addysg | 61 (34%) | 52 (29%) | 66 (37%) |
| Hyfforddiant galwedigaethol neu sgiliau | 62 (36%) | 33 (19%) | 76 (44%) |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Swydd yn y carchar | 55 (31%) | 72 (40%) | 52 (29%) |
| Gwaith y tu allan i'r carchar | 26 (15%) | 34 (20%) | 110 (65%) |

**16.5 A yw'r carchar wedi eich dyrannu i'r addysg, yr hyfforddiant neu'r gwaith a fydd yn eich helpu pan gewch eich rhyddhau?**

Ydy ........ 49 (27%)
Nac ydy ........ 96 (52%)
Ddim yn berthnasol ........ 39 (21%)

**16.6 Ydy staff yr adain yn eich annog i fynychu addysg, hyfforddiant neu waith?**

Ydyn ........ 77 (42%)
Nac ydyn ........ 73 (40%)
Ddim yn berthnasol ........ 33 (18%)

## Cynllun dedfryd

**17.1 Oes gennych chi gynllun dedfryd?**

Oes ........ 80 (46%)
Nac oes........ 80 (46%)
Heb gael fy nedfrydu........ 13 (8%)

**17.2 Atebwch y cwestiynau canlynol am eich cynllun dedfryd:**

| | Ydw / Oes | Nac ydw / Nac oes | Ddim yn gwybod beth yw fy amcanion neu fy nhargedau |
|---|---|---|---|
| Ydych chi'n deall beth mae angen i chi ei wneud i gyflawni'ch amcanion neu'ch targedau? | 59 (77%) | 7 (9%) | 11 (14%) |
| Oes unrhyw staff yma yn eich helpu i gyflawni eich amcanion neu'ch targedau? | 24 (32%) | 39 (53%) | 11 (15%) |
| Ydych chi wedi bod yn rhan o'r gwaith o bennu'r amcanion neu'r targedau? | 35 (48%) | 27 (37%) | 11 (15%) |

## Dychwelyd i'r gymuned

**18.1 Ydych chi'n disgwyl cael eich rhyddhau yn y 3 mis nesaf?**

Ydw ........ 49 (28%)
Nac ydw ........ 98 (57%)
Ddim yn gwybod........ 25 (15%)

**18.2 Pa mor agos yw'r carchar hwn at ardal eich cartref neu'r cyfeiriad y byddwch yn cael eich rhyddhau iddo?**

Agos iawn........ 6 (14%)
Eithaf agos ........ 12 (27%)
Eithaf pell........ 21 (48%)
Pell iawn ........ 5 (11%)

**18.3 A oes unrhyw un yn eich helpu i baratoi ar gyfer eich rhyddhau (pobl fel Rheolwyr Troseddwyr yn y Carchar neu yn y Gymuned)?**

Oes........................................................................................ 19 (41%)
Nac oes .................................................................................. 27 (59%)

**18.4 Ydych chi'n cael help i gael trefn ar y pethau hyn ar gyfer eich rhyddhau?**

| | Ydw, rydw i'n cael help gyda hyn | Nac ydw, ond mae angen help arnaf gyda hyn | Nac ydw, a does dim angen help arnaf gyda hyn |
|---|---|---|---|
| Dod o hyd i lety | 9 (19%) | 24 (51%) | 14 (30%) |
| Dod o hyd i waith | 8 (19%) | 14 (33%) | 21 (49%) |
| Cael trefn ar fudd-daliadau | 10 (22%) | 25 (54%) | 11 (24%) |
| Arian a dyledion | 7 (17%) | 13 (31%) | 22 (52%) |
| Agor cyfrif banc | 9 (20%) | 11 (24%) | 25 (56%) |
| Cael ID â ffoto | 11 (24%) | 16 (35%) | 19 (41%) |

## Mwy amdanoch chi

**19.1 Oes gennych chi blant o dan 18 oed?**

Oes........................................................................................ 84 (48%)
Nac oes .................................................................................. 90 (52%)

**19.2 Ydych chi'n ddinesydd Prydeinig / y DU?**

Ydw ....................................................................................... 167 (95%)
Nac ydw.................................................................................. 8 (5%)

**19.3 Ydych chi erioed wedi bod mewn gofal awdurdod lleol (ydych chi wedi byw gyda rhieni maeth neu mewn cartref plant, neu wedi cael gweithiwr cymdeithasol, pan oeddech chi o dan 18 oed)?**

Ydw ....................................................................................... 46 (26%)
Nac ydw.................................................................................. 128 (74%)

**19.4 Ydych chi erioed wedi bod yn y lluoedd arfog (y fyddin, y llynges, y llu awyr)?**

Ydw ....................................................................................... 13 (7%)
Nac ydw.................................................................................. 162 (93%)

**19.5 Beth yw eich rhywedd?**

Gwryw .................................................................................... 170 (97%)
Benyw.................................................................................... 2 (1%)
Anneuaidd ............................................................................. 2 (1%)
Arall ....................................................................................... 1 (1%)

**19.6 Ydych chi'n ystyried eich hun yn berson trawsryweddol neu draws?**

Ydw ....................................................................................... 3 (2%)
Nac ydw.................................................................................. 171 (98%)

**19.7 Sut byddech chi'n disgrifio eich cyfeiriadedd rhywiol?**

Heterorywiol / Strêt................................................................. 168 (95%)
Hoyw / lesbiaidd / cyfunrhywiol.............................................. 1 (1%)
Deurywiol............................................................................... 5 (3%)
Arall ....................................................................................... 2 (1%)

## Cwestiynau olaf am y carchar hwn

**20.1 Ydych chi'n meddwl bod eich profiadau yn y carchar hwn wedi eich gwneud chi'n fwy neu'n llai tebygol o droseddu yn y dyfodol?**

| | |
|---|---|
| Yn fwy tebygol o droseddu | 11 (6%) |
| Yn llai tebygol o droseddu | 70 (40%) |
| Heb wneud dim gwahaniaeth | 92 (53%) |